OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1903

# Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

## RHAN 3 —

## MATERION ARIANNOL

**Dyletswyddau ariannol cyffredinol**

**13.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu dyletswyddau ariannol y Corff.

(2) Gellir gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer swyddogaethau a gweithgareddau gwahanol y Corff.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r Corff cyn gwneud penderfyniad am ddyletswyddau ariannol y Corff, a

(b) rhoi hysbysiad i'r Corff am bob penderfyniad o'r fath y maent yn ei wneud.

(4) Caiff penderfyniad o'r fath—

(a) ymwneud â chyfnod sy'n dechrau cyn y dyddiad y'i gwneir, arno neu ar ei ôl;

(b) cynnwys darpariaethau atodol; ac

(c) cael ei amrywio gan benderfyniad dilynol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Corff gan ei gwneud yn ofynnol iddo dalu iddynt swm sy'n gyfartal â'r cyfan o unrhyw swm neu ran ohono a bennir yn y cyfarwyddyd, neu unrhyw swm o ddisgrifiad a bennir felly a hwnnw'n swm sy'n cael neu sydd wedi cael ei dderbyn gan y Corff hwnnw.

(6) Lle yr ymddengys i Weinidogion Cymru fod gan y Corff warged, p'un ai ar gyfrif cyfalaf neu refeniw, cânt gyfarwyddo'r Corff i dalu iddynt swm nad yw'n fwy na'r gwarged hwnnw a bennir yn y cyfarwyddyd.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Corff cyn rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (5) neu (6).